# Dŵr i bawb

Mae llawer o bobl yn y byd yn gorfod cerdded am dair awr neu fwy i gasglu eu dŵr yfed. Yn ein gwlad ni, rŷn ni'n lwcus bod gennym ddŵr glân o'r tapiau yn ein cartrefi a'n hysgolion.

Mae Mbaba yn wyth oed ac mae'n byw yng ngwlad Uganda yn Affrica.

Bob bore, mae Mbaba yn cerdded i'r unig dap yn y pentref i gasglu dŵr ar gyfer holl anghenion ei theulu.

Mae can dŵr ganddi sy'n dal 15 litr o ddŵr.




Mae ar bob aelod o'i theulu angen y symiau isod o ddŵr yn y bore.

| | LITR |
|---|---|
| Brwsio dannedd ac ymolchi | 2 |
| Paratoi bwyd | 0.5 |
| Diodydd | 0.5 |
| Glanhau | 1 |
| Coginio | 1 |
| Pethau eraill | 1 |

## CWESTIYNAU

Faint o ddŵr y mae Mbaba yn ei ddefnyddio?

..............................................................

Mae pump o bobl yn nheulu Mbaba. Faint o ddŵr fydd y teulu cyfan yn ei ddefnyddio yn y bore?

..............................................................

Sawl gwaith y bydd angen i Mbaba fynd yn ôl a blaen at y tap?

..............................................................